



CYNGOR CYMUNED Y FALI

Cylch Gorchwyl

Pwyllgor Parciau

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
10/06/2026	17/06/2026 Rhif Cofnod: 47/2627	17/06/2026

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn nodi cylch gwaith, aelodaeth, trefniadau gwaith a trefn adrodd y Pwyllgor Parciau a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned y Fali.

1. Pwrpas y Pwyllgor

Sefydlir y Pwyllgor Parciau ("y Pwyllgor") gan Gyngor Cymuned y Fali i oruchwylio, adolygu a monitro materion sy'n ymwneud ag adeilad y Pafiliwn, Parc Mwd yn ei gyfanrwydd, yr ardal chwarae a'r offer chwarae ym Mharc Mwd, yr ardal chwarae a'r offer chwarae ar Lôn Spencer, ac unrhyw barciau, meysydd hamdden, mannau amwynder neu asedau awyr agored eraill y Cyngor Cymuned, gan gynnwys dodrefn stryd megis meinciau, hysbysfyrddau, planwyr, y cloc a llochesi bysiau, a roddir o fewn ei gylch gwaith, ac i wneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

2. Statws y Pwyllgor

Pwyllgor ymgynghorol yw'r Pwyllgor oni bai a hyd nes y bydd y Cyngor Llawn yn dirprwyo swyddogaeth benodol iddo yn ysgrifenedig.

3. Pwerau

Dim ond lle mae'r Cyngor Llawn wedi rhoi awdurdod ysgrifenedig penodol y caiff y Pwyllgor arfer pwerau dirprwyedig. Gall ystyried materion sy'n ymwneud â safleoedd o fewn ei gylch gwaith, archwilio ac adolygu cyflwr safleoedd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo.

Ni chaiff y Pwyllgor ymrwmo i gontractau, gwario arian, cymeradwyo gwaith, cyflwyno ceisiadau nac ymrwymadau yn enw'r Cyngor, na diwygio polisi oni bai bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo neu ddirprwyo'r awdurdod hwnnw'n benodol.

4. Cylch Cyfrifoldeb

Bydd y Pwyllgor yn ystyried materion ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ynghylch:

- a. rheoli, cynnal, ymddangosiad a datblygiad Parc Mwd, yr Ardal Chwarae, ac unrhyw barc, maes hamdden, man amwynder neu gyfleuster cymunedol awyr agored arall sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor;
- b. materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r safleoedd hynny;
- c. asesiadau risg, arolygiadau, archwiliadau diogelwch a mesurau rheoli risg;
- d. cyflwr safleoedd, offer chwarae, materion ffiniau, mynediad, arwyddion a seilwaith cyffredinol;
- e. cytundebau, trwyddedau, prydlesi, trefniadau llogi a threfniadau eraill sy'n ymwneud â defnyddio safleoedd, lle bo hynny'n berthnasol;
- f. rhestrau asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, seilwaith safleoedd, deiliaid allweddi a threfniadau mynediad;
- g. cwynion, pryderon gweithredol ac unrhyw faterion a godir gan y Clerc, cynghorwyr, grwpiau defnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd;
- h. gwaith cynnal a chadw arfaethedig, gwaith atgyweirio, gwaith adnewyddu neu amnewid, cynlluniau gwella a chynigion datblygu;
- i. gofynion cyllidebol, cyfleoedd grant a blaenoriaethau ariannu sy'n ymwneud â safleoedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor;
- j. paratoi ac adolygu cynllun gwaith ar gyfer parciau a chyfleusterau, gan nodi blaenoriaethau uniongyrchol, tymor byr a thymor hir, gan gynnwys blaenoriaethau ar draws sawl safle; a
- k. unrhyw fater arall yn ymwneud â pharciau neu gyfleusterau a gyfeirir ato gan y Cyngor Llawn.

5. Iechyd a Diogelwch / Risg

Bydd y Pwyllgor yn monitro materion iechyd a diogelwch ac yn adolygu asesiadau risg, archwiliadau a mesurau rheoli perthnasol yn rheolaidd.

6. Defnydd o Gyfleusterau, Cytundebau a Chofnodion Safleoedd

Bydd y Pwyllgor yn cadw defnydd y cyfleusterau o dan adolygiad ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol.

7. Cynllun Gwaith a Blaenoriaethau Datblygu

Bydd y Pwyllgor yn cynnal cynllun gwaith ar gyfer cynnal a datblygu pob safle o fewn ei gylch gwaith.

8. Goruchwyliaeth Weithredol

Gall y Pwyllgor oruchwyllo materion dydd i ddydd drwy'r Clerc, ond bydd pob penderfyniad sylweddol, ymrwymiad ariannol a mater polisi yn parhau yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor Llawn oni bai ei fod wedi'i ddirprwyo'n ffurfiol.

9. Aelodaeth

Cyfyngir aelodaeth i uchafswm o bum Cyngorydd Cymuned sy'n gwasanaethu, oni bai bod y Cyngor Llawn yn penderfynu fel arall.

Gall y Cyngor Llawn hefyd benodi neu wahodd cynrychiolwyr cyfetholedig heb hawl pleidleisio o glybiau chwaraeon neu sefydliadau lleol eraill sy'n defnyddio'r cyfleusterau sydd o dan gyfrifoldeb y Pwyllgor, os yw'n ystyried y byddai hyn yn helpu'r Pwyllgor i gyflawni ei waith.

Adolygir yr aelodaeth yn flynyddol yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor.

10. Cadeirydd y Pwyllgor

10.1 Penodir Cadeirydd y Pwyllgor gan y Cyngor Llawn yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

10.2 Gall y Pwyllgor argymhell penodi Is-gadeirydd i'r Cyngor Llawn.

10.3 Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol o gyfarfod, yr Is-gadeirydd fydd yn cadeirio'r cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ill dau yn absennol, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ethol un o'u plith i weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw, a bydd yr aelod a etholir yn cadeirio am weddill y cyfarfod.

11. Cworwm

Tri aelod fydd cworwm cyfarfod o'r Pwyllgor.

12. Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Pwyllgor dair gwaith y flwyddyn fel arfer, gan gynnwys cyfarfod ym mis Hydref i adolygu gofynion y gyllideb, neu fel y penderfynir gan y Cyngor neu'r Pwyllgor yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir galw cyfarfod brys ar rybudd byrrach yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

13. Agenda a Hysbysiadau Cyfarfodydd

Cyfngir y materion a drafodir mewn cyfarfod i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Rhaid dosbarthu'r agenda a'r hysbysiad o'r cyfarfod i aelodau'r Pwyllgor gan roi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd.

Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad o'r cyfarfod (gan gynnwys manylion ynghylch sut y gellir ymuno â'r cyfarfod yn rhithwir, os yw'n berthnasol) yn electronig ac mewn man(au) priodol o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Os caiff y cyfarfod ei alw ar rybudd byrrach, rhaid cyhoeddi'r hysbysiad ar yr adeg y caiff y cyfarfod ei alw.

14. Cyfranogiad y Cyhoedd a Phresenoldeb Eraill

Bydd cyfranogiad y cyhoedd yn cael ei gynnal yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Gall y Pwyllgor wahodd grwpiau defnyddwyr, contractwyr, swyddogion, cynghorwyr arbenigol neu unigolion eraill i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd lle mae hynny'n debygol o gynorthwyo'r Pwyllgor wrth ystyried materion sy'n ymwneud â pharciau a chyfleusterau.

Bydd y person sy'n cadeirio'r cyfarfod yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol siarad am hyd at 3 munud yr un, oni bai bod Cadeirydd y cyfarfod yn cyfarwyddo fel arall, ac yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cyngor.

15. Cyfarfodydd o Bell ac Aml-leoliad

Gall cyfarfodydd gael eu cynnal yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb, yn gyfan gwbl o bell, neu ar sail aml-leoliad, yn unol â threfniadau cyfarfodydd cyhoeddedig y Cyngor a'r gofynion cyfreithiol sydd mewn grym ar y pryd.

16. Datgan Buddiannau

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor ac yn datgan unrhyw fuddiannau personol a rhagfarnus yn unol â'r Cod hwnnw a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

17. Clerc / Ysgrifennydd

Bydd Clerc y Cyngor yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor ac yn cofnodi trafodion, argymhellion a phenderfyniadau pob cyfarfod, gan gynnwys enwau'r rhai sy'n bresennol, unrhyw ymddiheuriadau, ac unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Mewn amgylchiadau brys, gall y Clerc gymryd y camau angenrheidiol yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor, gan adrodd ar unrhyw gamau o'r fath i gyfarfod nesaf y Pwyllgor neu i'r Cyngor Llawn, pa un bynnag a gynhelir gyntaf.

18. Cofnodion Cyfarfodydd

Bydd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu'n brydlon i holl aelodau'r Pwyllgor. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod, ac o fewn saith diwrnod gwaith fan bellaf ar ôl y cyfarfod, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'n electronig nodyn o'r cyfarfod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor. Bydd y nodyn yn cynnwys enwau'r aelodau a oedd yn bresennol, unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, unrhyw ddatganiadau o fuddiant, ac unrhyw benderfyniadau a wnaed, yn ddarostyngedig i eithrio unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu esempt.

Gellir hefyd gyhoeddi cofnodion drafft neu gofnodion sydd heb eu cadarnhau yn electronig yn dilyn y cyfarfod. Yna cyflwynir y cofnodion i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned Llawn i'w cymeradwyo.

Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn, bydd y cofnodion cymeradwy yn cael eu cyhoeddi'n electronig, neu bydd y cofnod a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

19. Adrodd i'r Cyngor Llawn

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor Llawn drwy gyfrwng cofnodion, argymhellion neu adroddiadau ysgrifenedig ar wahân, fel y bo'n briodol. Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu a ddylid mabwysiadu, diwygio neu wrthod unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor.

20. Materion Ariannol

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.

Ym mis Hydref bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn adolygu ei ofynion cyllidebol ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Bydd unrhyw wariant, dyfynbris, proses dendro, prosiect a ariennir drwy grant neu fater cytundebol sy'n ymwneud â safleoedd o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor yn cael ei drin yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor ac yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn, oni bai bod awdurdod dirprwyedig yn bodoli.

21. Cydymffurfiaeth a Llywodraethu

Wrth gyflawni ei rôl, bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â:

- a. Rheolau Sefydlog y Cyngor;
- b. Rheoliadau Ariannol y Cyngor;
- c. Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- d. polisiau'r Cyngor sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu data a chwynion; ac
- e. unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i gynghorau lleol, parciau, ardaloedd chwarae a mannau agored cyhoeddus yng Nghymru.

22. Hyfforddiant

Dylai aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â hyfforddiant perthnasol, yn enwedig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad, iechyd a diogelwch, llywodraethu ariannol, a rheoli parciau, ardaloedd chwarae a chyfleusterau cyhoeddus, yn unol â chynllun hyfforddi'r Cyngor.

23. Adolygu'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu gan y Cyngor Llawn o leiaf unwaith y flwyddyn a gellir ei ddiwygio drwy benderfyniad y Cyngor Llawn.